# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclennan9@icloud.com

MUNUDAU CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AM 7.30 y..h. DDYDD LLUN, MAWRTH 2ail, 2020, YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS.

1. CROESO -- Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths, yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans a'r Cynghorwyr Hefin Williams; D.Gwyn Jones; Tudur W. Jones; Gwyndaf O. Roberts; John D. Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.

3. YMDDIHEURIADAU -- y Cynghorydd Bryn Jones.

4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB -

   Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac o'r herwydd nid yw'n gallu cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau ynghylch rheolau cynllunio a pholisïau. NI DDATGELWYD YR UN.

5. MUUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 3ydd, 2020, yn y Ganolfan Gymunedol, Llanelian yn Rhos.

6. MATERION YN CODI

   3.19/18(i) Tyllau ffordd rhwng Betws a Nant yr Efail. Mae rhif gwaith 00046881 yn cyfeirio. Atgoffodd y Cynghorydd Lloyd yr aelodau ei fod wedi dangos cyflwr y ffyrdd yn ei ward i arweinydd y Cyngor Sir, a'i fod wedi cael addewid y byddai'r arweinydd yn ysgrifennu at yr adran sy'n gyfrifol. **(Mae Atodiad 1 yn cyfeirio).**

   3.19/18(ii) Asesu cwyn yn ymwneud â damweiniau niferus ar y troadau ger Bryn Person. Mae rhif 46292 yn cyfeirio. Roedd Mr. Wil. Roberts o'r adran briffyrdd yn delio gyda'r mater hwn, a byddai gweithredu o ryw fath yn digwydd, yn debygol codi arwyddion rhybudd.

7.19/18(v) Llythyr gan Mr. Goronwy Davies ynghylch carreg fedd ym mynwent yr eglwys. Mae hyn yn dal ar fynd. Mae disgwyl am ateb gan Swyddog Treftadaeth y Cyngor Sir, sydd, yn anffodus yn absennol o'i waith oherwydd salwch.

11.19/18(i) Cyflwr wyneb y ffordd rhwng Nant yr Efail a Pheniarth Bach. Nid yw'r mater hwn wedi ei setlo. Gweler atodiad un.

2.20/14(i) Tyllau ffordd rhwng Dawn a Thŷ'n-y-Wal ger Bron Ucha a Thandderwen i ffordd Teyrnden. Mae'r mater hwn bellach wedi ei SETLO.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

3.20/7(i) Cais i adnewyddu aelodaeth gan Un Llais Cymru am £152. CYTUNWYD I HYNNY.

3.20/7(ii) Panel Taliadau Annibynnol Cymru ynghylch ad-dalu costau gofal. NODWYD y cyhoeddiad hwn.

3.20/7(iii) Llythyr gan Teithiio Ffordd Tractorau Cenedlaethol Cymru. Teimlai'r aelodau fod hwn yn syniad da, ond gan fod y Cyngor eisoes yn cyfrannu grant i'r elusen dan sylw fe BENDERFYNWYD gyda gofid NA fyddai'r Cyngor yn cyfrannu at y daith tractorau.

3.20/7(iv) Llythyr gan bwyllgor Clwyd a Swydd Gaer o Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. CYTUNWYD i anfon £50 at yr achos hwn. _ Siec 200073 yn gyfeirio

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Chwefror 20fed, 2020.

Cyfrif cymunedol ..................................................................£7171.98

Cyfrif busnes ........................................................................£5545.26

I gytuno ar, ac arwyddo'r adroddiad ariannol misol ar gyfer Chwefror 2020. CYTUNWYD ARNO GAN BAWB.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - DIM.

10. TALIADAU ALLAN - i'w cymeradwyo.

i. 3.20/10(i) Cyflog y Clerc ..(DU .......................................£ 287.23
ii. 3.20/10(ii) HMRC...(DU)...............................................£ 71.81
iii. 3.20/10(iii) Cyfieithu ( Hanner y gost)............................£ 18.50 – Siec 200069
iv. 3.20/10(iv) Aelodaeth o Un Llais Cymr.........................£ 152.00 – Siec 200070

v. 3.20/10(v) Treuliau swyddfa blynyddol y Clerc ethol/TG/rhent
£ 200.00 – Siec 200071

vi. 3.20/10(vi) Stampiau........................................................£ 25.20 – Siec - 200072

11. CEISIADAU AM GRANT - Dim.

12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward. Dywedodd y Cynghorydd Lloyd y byddai'r adran sy'n delio efo materion priffyrdd yn cael ei had-drefnu i ddelio gyda phroblemau ffyrdd o fewn y sir, ac yn arbennig yr ardaloedd gwledig.

3.20/12(i) E-bost ynghylch gwasanaethau cynaliadwy yng Nghonwy. NODWYD hyn am y tro.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - DIM.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED - DIM.

15. UNRHYW FATER ARALL

3.20/15(i) Cais Praesept wedi ei anfon i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eto, gan fod y copïau cyntaf wedi eu colli. NODWYD hyn.

16. CYNLLUNIO -

3.20/16(i) 0/47073 Estyniad llawr isaf yn Fforddlas, Fforfdd Dolwen, Hen Golwyn. Mr Mark Milne. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

3.20/16(ii) 0/47083 Codi mynedfa annedd a gwaith peirianyddol atodol ar dir yn The Granary, Ffordd Cil Llidiart, Betws yn Rhos. Mr Barry McDowell. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

3.20/16(iii) 0/46970 Ffordd fynedfa breifat newydd i Gwyndy Uchaf, Ffordd Bryn Car, Betws yn Rhos. CAIS WEDI EI DYNNU'N ÔL.

Rhestr o benderfyniadau cynllunio. NODWYD hyn.

17. MATERION ARCHWILIAD -

3.20/17(i) Gwahoddiad i wneud sylwadau ar drefniadau archwilio'r dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol am 2020 //2021. Fe eglurodd y Clerc y trefniadau archwilio newydd i'r aelodau. Mae'n ymddangos y bydd edrych ar yr archwiliadau dros gyfnod o dair blynedd. Byddai dau o'r tri yn archwwiliadau rhannol, pan na fyddai angen y dogfennau llawn  gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond fe fyddai'r archwiliwyr mewnol yn edrych ar yr holl ddogfennau dros y tair blynedd. Fe fyddai ar Swyddfa Archwilio Cymru angen pob papur a dogfen yn y drydedd flwyddyn.

3.20/17(ii) Cynllun Archwiliad Mewnol gan JDH Business Services Ltd. NODWYD hyn a CHYTUNWYD ARNO.

PENDERFYNODD Y CYNGOR LLAWN I OHIRIO POB CYFARFOD YN Y DYFODOL HYD NES Y CLYWIR YN WAHANOL.

Gan nad oedd unrhyw fusnes ychwanegol fe orffennodd y cyfarfod am 8.37 y.h.

CADEIRYDD.........................................................DYDDIAD..................................................